

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

DYDD GWENER, 14 GORFFENNAF 2023

**Siambwr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP
14:00yp – 16:09yp**

YN BRESENNOL: Yr Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:

K. Howell, K. Davies a D. Jones;

Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:

E. Evans, K. Evans ac W. Thomas;

Aelodau o Gyngor Sir Penfro:

J. Grimes a S. Hancock;

Aelodau o Gyngor Sir Powys:

W. Powell ac L. Rijkenberg

Aelod Annibynnol:

Mrs. H. Thomas

Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau:

Mr. D. Llywelyn - y Comisiynydd Heddlu a Throseddau;

Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

R. Edgecombe, Swyddog Monitro y Panel;

K. Evans, Swyddog Cynorthwyol y Gwasanaethau Democrataidd;

R. Morris, Swyddog Cymorth i'r Aelodau;

S. Hendy, Swyddog Cymorth i'r Aelodau;

A. Eynon, Prif Gyfieithydd.

1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PANEL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

1.1 Penodi'r Athro Ian Roffe yn Gadeirydd y Panel tan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel 2024

1.2 Penodi'r Cynghorydd Keith Evans yn Is-gadeirydd y Panel tan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel 2024

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Les George (Cyngor Sir Powys).

Sylwedd: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelod	Rhif yr Eitem ar yr Agenda	Buddiant
Y Cynghorydd S. Hancock	Pob eitem ar yr agenda	Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel Swyddog Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys
Y Cynghorydd D. Jones	Eitem 9	Cyllid Dolen Teifi
Y Cynghorydd K. Evans	Eitem 9	Cyllid Dolen Teifi

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 19 MAI 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 19 Mai 2023 gan eu bod yn gywir

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Ni chodwyd unrhyw faterion yn y cyfarfod.

6. CWESTIYNAU A RHYBUDD GAN AELODAU'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD

6.1 Cwestiwn gan yr Athro Ian Roffe

Yng nghyfarfodydd blaenorol y panel mae'r Comisiynydd wedi nodi ei waith y tu allan i ardal Dyfed Powys, gan gynnwys grŵp awyr cenedlaethol yr heddlu, prosiect cyfathrebu digidol y Swyddfa Gartref a bwrdd plismona Cymru gyfan. Gall arwain a chydweithio fod o fudd i'r ardal hon yn ogystal ag ardaloedd Heddluoedd eraill. A allai'r Comisiynydd roi adolygiad cyfredol o'i gysylltiad â grwpiau allanol o'r fath ar hyn o bryd, y prif faterion y mae pob grŵp yn rhoi sylw iddynt ac unrhyw oblygiadau posibl i lywodraethu plismona yn ardal Dyfed Powys?

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel fod Comisiynwyr yng Nghymru a Lloegr yn dod at ei gilydd mewn gwahanol gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Mae pob Comisiynydd yn cyflawni swyddogaeth, i rannu'r baich o ran rhyw weithgaredd. Cafwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu dair blynedd yn ôl, a amlygodd rai argymhellion a newidiadau a oedd eu hangen yn y strwythur, gan arwain at benodi Cadeirydd Annibynnol.

Rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Panel am y gwahanol fforymau a phaneli y mae'n gysylltiedig â hwy, h.y. sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Digidol yr Heddlu,

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Cyngor Staff yr Heddlu, Cymdeithas Bwrdd Heddlu a Throseddu, Bwrdd Partneriaeth Cymru, cadeirydd Plismona Cymru yn ystod Covid, arweinydd trais yn erbyn menywod a merched, wedi rhoi tystiolaeth yn ddiweddar yn y Pwyllgor Materion Cymreig, wedi datblygu fforwm ieuencid i rymuso pobl ifanc ac ar hyn o bryd mae'n ymwneud â'r digwyddiad ceiswyr lloches yn Llanelli.

Rhoddodd y Comisiynydd sicrwydd i'r Panel ei fod yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Heddlu ynglŷn â'r ceiswyr lloches yn Llanelli a'i fod yn monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn. Nododd y Comisiynydd ei bod yn sefyllfa ddeinamig iawn a'i bod yn cael effaith ar y llu.

6.2 Cwestiwn â Rhybudd gan yr Athro Ian Roffe

Mae aelodau'r panel wedi dod ar draws achosion amrywiol lle mae aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn anfodlon ar ymatebion Heddlu Dyfed-Powys i alwadau 101.

A yw'r Comisiynydd yn ymwybodol o broblemau yn ymwneud â'r gwasanaeth 101 a sut mae'n mynd ati i sicrhau ymatebion mwy amserol a phriodol i'r cyhoedd?

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel fod tua 500 o ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi bob dydd dros y ffôn. Un o'r materion allweddol yw trosiant staff ar gyfer cyfathrebu'r heddlu. Mae'r galw ar staff yn cynyddu a throsiant yw 17%. Buddsodwyd yn y system teleffoni a ddylai wella a symleiddio'r broses gofnodi. Mae angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r adran teleffoni. Bydd y data perfformiad ynghylch ateb galwadau yn cael ei anfon at y Panel er gwybodaeth. Eglurodd y Comisiynydd wrth y Panel fod problem recriwtio ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag oedi pan fydd galwyr yn gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg, dywedodd y Comisiynydd y byddai'n ymchwilio i'r mater hwn ac yn ymateb ar ôl ei gyfarfod gyda'r Prif Gwnstabl yn yr wythnos ganlynol.

Gofynnodd y Comisiynydd i'r Panel anfon unrhyw gŵynion neu ymholiadau gan y cyhoedd i'w swyddfa, a fyddai wedyn yn eu cofnodi, ac yn ymchwilio ac yn ymateb iddynt.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r nifer uchel o alwadau sy'n cael eu cofnodi fel rhai y rhoddwyd y gorau iddynt, dywedodd y Comisiynydd fod y niferoedd uchel yn gysylltiedig ag opsiwn 2 a 4, sy'n cael eu barnu fel rhai ar lefel is o fygythiad. Dywedodd y Comisiynydd wrth yr aelodau ei fod yn cael ei friffio ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel.

6.3 Cwestiwn gan y Cyngorydd Keith Evans

Yn ddiweddar, cysylltodd aelod o'r cyhoedd â mi i gwyno am sut yr oedd yr heddlu wedi delio â gwrthdrawiad traffig ffordd yr oedd hi wedi bod yn rhan ohono. Er fy mod wedi gallu cyfeirio'r unigolyn hwn at yr heddlu ei hun yn yr

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

achos hwn, a wnewch chi amlinellu, er budd aelodau mwy newydd o'r Panel ac aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn gwylio, eich rôl ym mhroses gŵynion yr heddlu, yr oruchwyliaeth yr ydych yn ei harfer o ran sut mae'r heddlu'n ymdrin â chwynion, a beth ddylai'r cyhoedd ei wneud os ydynt yn dymuno gwneud cwyn yn erbyn swyddog heddlu.

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel fod gan ei swyddfa lyfryn ar sut i wneud cwyn a'i fod ar gael ar ei gwefan i bawb ei weld. Os gwneir cwyn yn erbyn Swyddog Heddlu, y Llu sy'n gyfrifol am ymchwilio iddi. Er mwyn sicrhau bod cofnod o gŵyn, dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel y byddai'n arfer gorau anfon e-bost neu lythyr at naill ai'r Llu neu ei swyddfa.

6.4 Cwestiwn gan y Cynghorydd Liz Rijnenberg

Mae Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn hanfodol i lwyddiant holl flaenoriaethau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae gwybodaeth anecdotaidd yn dangos y gall effeithiolrwydd y timau hyn o ran gwelededd a'r gallu i ymateb amrywio o ardal i ardal.

O ystyried y gwaith diweddar i ad-drefnu'r timau hyn a'r cyfle i wella safon y gwasanaeth, sut mae'r Comisiynydd yn sicrhau ei hun am y canlynol:

1. Bod digon o adnoddau wedi'u darparu ar gyfer y trefniadau newydd.
2. Bod strwythurau ar waith i sicrhau bod y Timau Plismona yn y Gymdogaeth yn ymatebol ac yn gyson ar yr un pryd o ran sut y byddant yn cydgyssylltu ac yn cyfathrebu â'r holl randdeiliaid ac, yn bwysig iawn, dioddefwyr troseddau ar draws yr ardaloedd.
3. Sut y bydd effeithiolrwydd y timau yn cael ei fonitro a'i werthuso.

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel fod gan Heddlu Dyfed-Powys bellach fwy o Swyddogion Heddlu nag erioed o'r blaen. Nid yw'r rolau arbenigol i gyd wedi cael eu llenwi. Mae cyswilt lleol yn bwysig a dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel y byddai'n trafod gweithgarwch gweithredol cyfrifol yn y llu â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel y byddai rhagor o sesiynau ymgysylltu ag aelodau lleol, Cynghorwyr a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal yn yr hydref eleni.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU**

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2022-2023 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a fyddai'n cael ei lansio yn y Sioe Frenhinol eleni.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Diolchodd y Panel i'r Comisiynydd am yr holl waith caled a wnaed i lunio'r adroddiad hawdd ei ddeall.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd nad oedd sicrwydd ynghylch dyfodol cyllid ar gyfer y gwahanol wasanaethau a nodir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel fod darparwr gwasanaeth newydd wedi cael ei ailgomisiynu.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

8. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[SYLWER: Roedd y Cyngorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad perfformiad mewn perthynas â'r Protocol Plismona ar gyfer Ch1 blwyddyn ariannol 2023-24.

Dywedodd y Comisiynydd wrth y panel fod cynnydd mewn perthynas â 2 gam gweithredu gwyrdd a bod gostyngiad mewn perthynas â 2 gam gweithredu ambr. Roedd y gwelliannau ym maes cyllid allanol a chyflwyno polisiau a gweithdrefnau newydd mewn perthynas â chyllid allanol sydd wedi gweld cynnydd yn y cyllid a gafwyd ac a ddyrannwyd. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i fireinio rhywfaint o'r gwaith a wnaed yn y chwarter diwethaf gyda'r bwriad o sicrhau bod mwy o feysydd gwell mewn gwyrdd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cyngorydd S. Hancock, y Cyngorydd D. Jones a'r Cyngorydd K. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 10 Mai a 29 Mehefin 2023. Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad yn cynnwys penderfyniad nad oedd wedi cael ei gynnwys mewn adroddiad blaenorol.

Nodwyd bod gwall teipio ar dudalen 122, swm y gynhadledd oedd £3750.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

10. CYNLLUN BUSNES SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad yn amlinellu sut y bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd ar gyfer 2023/24.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad

11. NEWIDIADAU I'R GORCHYMYN PROTOCOL PLISMONA

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu sut mae'r newidiadau yn effeithio ar y berthynas rhwng y Swyddfa Gartref, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstablaid a Phaneli Heddlu a Throseddu.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2022-2023 y Panel.

Diolchodd y Panel i Robert Edgecombe am yr holl waith caled y mae staff wedi'i wneud wrth lunio'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Panel y byddai copïau papur o'r adroddiad yn cael eu rhoi i lyfrgelloedd.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf